



## 27. DIM CHWAIN! DIM LLAU! (Stori o'r 1930au)

Dwy wraig fechan yn awyddus i weithio tros Dduw oedd Gladys Aylward a Jeannie Lawson. Fe fu Jeannie yn genhades yn Tsieina am dros hanner can mlynedd tra oedd ei chydymaith ifanc newydd deithio miloedd o filltiroedd gyda thrên, cwch, bws ac asyn er mwyn ymuno â hi. Yr oeddynt yn byw gyda'i gilydd mewn hen dŷ rhacs y tu mewn i furiau dinas Yangcheng.

Daethant i Yangcheng i ddweud wrth bobl am yr Iesu. Ond nid oedd y Tseineaid tlawd a oedd yn ffermio'r tir anghysbell hwn erioed wedi gweld Gorllewinwyr o'r blaen. Roedd gwallt gwyn Jeannie a chroen gwelw Gladys yn peri dychryn iddynt. Pan fentrai'r ddwy allan i strydoedd culion y ddinas, byddai'r gwagedd yn poeri arnynt ac yn clepio'r drysau yn eu hwynebaw. Taflai'r gwŷr fwd. Dilynai'r plant hwy gan eu dirmygu a'u rhegi. Ni fynnai neb wneud dim â'r 'diafoliaid estron'.

Er fod y ddinas yn anghysbell, yr oedd yn fan prysur iawn. Bob prynhawn byddai cannoedd o fasnachwyr yn heidio trwy byrth y Dwyrain i frwr'r nos, cyn parhau â'u siwrnai y bore canlynol. Doent gyda'u mulod, ac yn aml iawn yr oedd ganddynt dimau o ddyinion i gario nwyddau trymion rhwng dau bolyn hir.

'Petaen ni ond yn gallu dweud ein newyddion da wrth y dynion

ynd, fe allent ei gludo am gannoedd o filltiroedd trwy'r dalaith,' dywedodd Gladys wrth Jeannie un diwrnod.

Ond sylw gwag oedd hwn gan fod y gyrwyr mulod a'r cludwyr yr un mor anghyfeillgar â'r trigolion lleol. Ond glynodd Jeannie at ei syniad fel ci at asgwrn.

'Y masnachwyr! Wrth gwrs! Dyna'r ateb!' Yn llawn cynnwrf ysgydwodd law Gladys. 'Fe wnawn agor tafarn!'

'Agor tafarn?' A oedd Gladys wedi clywed yn gywir. Yr oedd cannoedd o dafarnau i'w cael ar hyd strydoedd culion Yangcheng, pob un yn cynnig yr un fargen i'r teithwyr blinedig. Am ychydig geiniogau caent bryd o fwyd a lle i gysgu ar y gwely brics anferth a gynhesid gan wres y ffwrn.

'Pam na feddyliais i am hyn yn gynharach?' Edrychodd Jeannie yn eiddgar o amgylch yr ystafell ar lawr isaf y tŷ. 'Fel tafarn y cafodd y lle yma ei adeiladu. Edrycha ar hyn!' Amneidiodd tuag at y gwely brics. 'Mae'r *k'ang* yna cyn hired â'r wal. Y cyfan fydd yn rhaid i ni ei wneud fydd trwsio'r to a rhoi arwydd y tu allan. Fe allem yn hawdd letya hanner cant o deithwyr y noson.'

'Gallem ... am wn i ... mae ganddon ni gogydd.' Ni allai Gladys lai na swnio'n amheus. Wedi'r cyfan nid er mwyn bod yn dafarnwraig y rhoddodd y gorau i'w swydd fel morwyn barlwr yn Llundain ond i fod yn genhades. Ond nid oedd rhwystro ar Jeannie Lawson unwaith y cawsai syniad. Cyn diwedd y mis, yr oedd Tafarn yr Wyth Hapusrwydd ar agor. Trwsiwyd y to. Yr oedd y gwely brics yn gynnes a deuai arogl bwyd da fel abwyd o'r gegin.

Ond, yn anffodus, buan y gwelwyd nad oedd diddordeb gan y gyrwyr mulod. Gwely glân neu fudr, bwyd da neu wael, nid oeddnt am beryglu eu heneidiau mewn tafarn o eiddo'r diafoliaid estron.

Rhaid oedd gwneud rhywbeth i ddenu cwsmeriaid.

'Os na ddaw'r gyrwyr mulod aton ni o'u bodd eu hunain, fe fydd yn rhaid i ni – neu yn hytrach ti, Gladys – fynd allan i'r stryd i'w perswadio hwy,' datganodd Jeannie. 'Mae tafarnwyr eraill yn ei wneud o,' meddai wedyn, gan droi at y ffenest. 'Edrycha! Mae cadwyn o fulod yn dod i lawr y stryd.'

Gwelai Gladys y prif yrrwr yn edrych ffordd hyn ac yna ffordd arall.

'Ceisio penderfynu lle i aros y mae o,' sibrydodd Jeannie. Ond

cyn iddynt gael ennyd arall i feddwl daeth perchennog tafarn gyfagos allan o'i dŷ, gan gydio ym mhen y mul blaenaf a hebrwng yr holl osgordd i fuarth ei dafarn.

'Dwyt ti 'rloed yn disgwyl i mi wneud hynna!' Ebychodd Gladys. 'Fedrwn i ddim!'

'Pam ddim?'

'Beth petai'r mulod yn fy mrathu?'

'Wnân nhw mo dy frathu di.' Fu Jeannie erioed yn un dda am guddio diffyg amynedd.

Tra oedd yn sefyllian y prynhawn canlynol y tu allan i'r drws cadwai Gladys ei dwylo o'r golwg yn llewys hir ei siaced las, rhag ofn. Clip-clop ... clip-clop. Nadreddai cadwyn o fulod i lawr y stryd. Yn betrus tynnodd anadl ddofn, a chyda llais crynedig dechreuodd alw allan y geiriau a ddysgodd y cogydd Tsieineaidd iddi – geiriau yn ôl pob sôn fyddai'n denu cwsmeriaid fel cacwn at bot jam.

'Does ganddon ni ddim chwain. Does ganddon ni ddim llau. Llety da ... llety da ... llety da; dowch ... dowch ... dowch!' galwodd.

Ond er ei haddewid o lety glân, ni ddaethai neb. Anwybyddodd y gyrrwyr mulod hi a heibio yr aeth y cludwyr.

Daeth ail gadwyn i'r golwg. 'Does ganddon ni ddim chwain. Does ganddon ni ddim llau. Llety da ... llety da ... llety da. Dowch ... dowch ... dowch!' galwodd Gladys yn uwch y tro hwn.

Ond ni ymatebodd neb.

O diar! Mae'n rhaid fod Jeannie'n iawn. Doedd dim arall amdani. Pan ddaeth y drydedd gadwyn fulod i'r golwg ym mhen y stryd, tynnodd y ferch ifanc ei dwylo o'i llewys a safodd ar flaenau ei thraed. Daeth pen y mul blaen gyferbyn â'u lliidiart hwy.

'Dim chwain ... dim llau ... dowch ... DOWCH!' Llamodd ymlaen, gafaelodd yng nghlustiau'r creadur, tynnodd ei ben tua chyfeiriad eu buarth hwy. Cyn iddi ddeall beth oedd yn digwydd roedd yr hen ful wedi gwthio'i ben oddi tani ac yn ddi-seremoni cafodd ei chludo ar drwyn yr anifail, rhwng y pyrth ac i mewn i'r buarth!

Aeth y mul i mewn. Lle bynnag yr âi'r mul blaen byddai'r gweddill yn sicr o'i ddilyn. A lle bynnag yr âi'r gadwyn fulod, dilynai'r gyrrwyr a'r cludwyr. Golygai hyn, mewn ychydig eiriau, ei bod wedi llwyddo i ddenu mintai gyfan: saith mul, dau yrrwr ac oddeutu ugain cludwr.

Gwych iawn, Gladys! Tro Jeannie oedd hi nawr. Cyn gynted ag

yr oedd cwsmeriaid cyntaf y dafarn yn glyd ar y gwely brics cynnes ac wedi cael powlenaid o does wedi ei stemio daeth trwodd i'r ystafell a'i llygaid gleision yn disgleirio.

'Peidiwch â bod ag ofn.' Eisteddodd ar y stôl a ddaethai gyda hi. 'Dwi wedi dod i ddweud stori wrthych. Mae'r holl straeon a glywch yn Nhafarn yr Wyth Hapusrwydd i'w cael am ddim.'

Er gwaethaf eu hunain yr oedd diddordeb gan y dynion. Gwelyau glân, bwyd da, a straeon am ddim. Yr oedd yna rywbeth o werth yn llety'r diafoliaid estron yma wedi'r cyfan.

'Heno dwi am ddweud stori wrthych am ddyn o'r enw Iesu,' dechreuodd Jeannie yn hapus, ac ymhen ychydig funudau yr oedd y stori'n byrlymu.

Eisteddai Gladys gerllaw, yn distaw wylio wynebau eu cwsmeriaid Tsieineaidd, gan feddwl am stori arall – un a adroddodd yr Iesu – un am wledd briodas. Gwyddai yn union sut y teimlai'r gweision yn y ddameg honno. Yr oedd yn hawdd rhoi arwyddion i fyny ac estyn gwahoddiad. Ond weithiau rhaid oedd mynd i'r stryd i lusgo'r gwesteion i mewn.

**HYD:** 7–8 munud

**NEGES:** Aeth Duw i drafferth mawr i ddod â iachawdwriaeth i ni. I ba raddau yr awn ni i rannu'r newyddion da?

**DARLLENIAD BEIBLAIDD:** Luc 14: 16–24

### **GWYBODAETH YCHWANEGOL:**

Gweithiodd Gladys Aylward, y cyn-forwyn barlwr, fel cenhades yn Tsieina am lawer blwyddyn. Yn ystod y rhyfel â Siapan arweiniodd 100 o blant di-gartref tros y mynyddoedd am ddeuddeng diwrnod i loches. Yn 1957 cafodd y llyfr yn adrodd hanes ei champ, *The Small Woman*, ei gyhoeddi. Cafodd ei gyfieithu i sawl iaith a'i wneud yn ffilm, *The Inn of the Sixth Happiness*, gydag Ingrid Bergman. Cafodd rhan o'r ffilm hon ei ffilmio ym Mhenrhyndeudraeth.